Datganiad newyddion

28 Mai 2009

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cyllid yn gymorth i wella medrau'r gweithlu

Mae llawer o gyflogeion wedi mynd yn ôl i addysg a hyfforddiant am y tro cyntaf ers gadael yr ysgol, ac mae rhai ohonynt yn ennill cymhwyster ffurfiol am y tro cyntaf yn eu bywydau, o ganlyniad i gyllid gwerth dros £6 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Er 1999, mae Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) wedi ariannu dros 127 o brosiectau mewn cwmnïau ar draws Cymru. Mae'n annog cyflogeion ac aelodau eu teuluoedd, p'un a ydynt yn aelodau o undeb neu beidio, i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant. Mae hyn wedi helpu cyfrannu at gynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd yn ôl i ddysgu ond nad oes ganddynt unrhyw draddodiad blaenorol o ddysgu, ac mae gwelliant cyffredinol mewn medrau yn y gweithlu.

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw, canfu Estyn fod cyflogeion a adawodd yr ysgol gydag ychydig neu ddim cymwysterau ffurfiol, wedi elwa o gyfleoedd dysgu yn amgylchedd diogel a chefnogol eu gweithle. Heb gymorth y cyllid, mae'n annhebygol iawn y byddent wedi mynd yn ôl i addysg.

Dywed Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, "Mae Cronfa Ddysgu Undebau Cymru wedi bod o fudd i gyflogeion yng Nghymru am dros ddeng mlynedd ac erbyn hyn, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ddatblygu medrau ein gweithlu trwy gynlluniau fel hwn. Mae'r gweithio cryf mewn partneriaeth rhwng undebau, cyflogwyr a chyflogeion wedi bod yn allweddol i weithredu'r rhaglen yn llwyddiannus. Mae cydnabyddiaeth o fewn cwmnïau o fuddion dysgu gydol oes wedi gwella cymhelliant, hunan-barch a hyder llawer o gyflogeion."

Mae cynrychiolwyr undebau, sy'n cynorthwyo'r prosiectau, yn helpu cyflogeion i ddechrau goresgyn eu rhwystrau ynghylch mynd yn ôl i ddysgu, trwy ofyn iddynt nodi a thrafod eu hobïau a'u diddordebau. Mae hyn yn galluogi cynrychiolwyr undebau i gydweddu'n ofalus y cyfleoedd sydd ar gael trwy raglen WULF i anghenion y dysgwyr. O ganlyniad, mae'r gyfradd aros yn uchel ar lawer o gyrsiau, dros 90% yn aml.

Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, mae dyddiad cychwyn cwrs yn cael ei oedi gymaint yn sgil cynllunio gwael, fel bod y cyllid dwy flynedd yn dod i ben cyn i gyflogeion gwblhau'u hyfforddiant. Mae Estyn, felly, yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymestyn cyllid ar gyfer pob prosiect am hyd at dair blynedd, i wneud yn siwr bod pob cyflogai yn cael dwy flynedd lawn o gyfleoedd dysgu o leiaf.

Canfu arolygwyr fod yr hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar unigolion a busnes eu cyflogwyr mewn llawer o gwmnïau sy'n cael eu hariannu gan WULF, fel Bws Caerdydd, Memory Lane Cakes a Kellogg's. Yn y cwmnïau hyn, mae rheolwyr prosiect a chynrychiolwyr dysgu undebau wedi datblygu a chynnal gweithio rhagorol mewn partneriaeth gyda chyflogeion.

-DIWEDD-

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
02920 446464
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk

Nodiadau i olygyddion

Am yr adroddiad

- Cafodd adroddiad Estyn 'Arfarniad o ansawdd a gwerth yr addysg a'r hyfforddiant a ariennir trwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru' ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ar gael yn llawn yn http://www.estyn.gov.uk/cy_thematicreports.asp

- Mae'r adroddiad yn seiliedig ar gyfarfod â sampl o gynrychiolwyr dysgu undebau, rheolwyr prosiect, cyflogwyr a chyflogeion sy'n cymryd rhan mewn prosiectau WULF. Cyfarfu arolygwyr hefyd â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y rhaglen WULF.

Am Estyn

Estyn yw'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol o ansawdd uchel.

Ein gweledigaeth yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff fel llais awdurdodol ar ddysgu yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad ond yn cael ein hariannu ganddi (dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan www.estyn.gov.uk